‘A yw Prydain yn Decach?’ Ffeithiau a chanfyddiadau allweddol: crefydd neu gred

‘A yw Prydain yn Decach?’ (2015) yw adolygiad pum-mlynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym Mhrydain. Mae’r daflen ffeithiau hon yn dirnad rhai o’n canfyddiadau allweddol ni ar gyfer crefydd neu gred.

Mae crefydd neu gred yn nodwedd a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; mae’n diogelu unigolion rhag triniaeth annheg, ac yn hyrwyddo cymdeithas decach a mwy cyfartal. Mae’n diogelu pobl rhag cael eu gwahaniaethu, oherwydd eu crefydd neu gred, mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, gweithgarwch cyhoeddus a darparu gwasanaethau. Mae ffigurau gan Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban yn dangos fod yna **36.9 miliwn** o Gristnogion, **266,000** o Fwdhyddion, **850,000** o Hindŵiaid, **275,000** o Iddewon, **2.9 miliwn** o Fwslimiaid, **444,000** o Sikhiaid, **260,000** o grefydd ‘Arall’, **16.5 miliwn** o bobl heb unrhyw grefydd, a **4.5 miliwn** o bobl nad oedd yn nodi eu crefydd, yn byw ym Mhrydain yn 2011.

Mae pobl heb grefydd yn poeni llai am drosedd ond yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi dioddef trosedd dreisgar

Roedd pobl heb unrhyw ymlyniad crefyddol yn poeni llai am drosedd. Yn Lloegr, roedd Mwslimiaid **(67.8%)**, Bwdhyddion **(67.1%)**, Hindŵiaid **(66.4%)**, Sikhiaid **(61.6%)**, a Christnogion **(38.6%)** yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn poeni am ymosodiad corfforol a throseddau meddiangar na’r rhai heb grefydd **(32.3%)** yn 2012/13. Yn yr Alban, roedd poeni am droseddu yn uwch i bobl o leiafrifoedd crefyddol **(57.6%)**, a Christnogion o gymharu â rhai sy’n adrodd eu bod heb grefydd **(45.6%)** yn 2012/13. Nid oedd gan Gymru digon o ddata i wneud dadansoddiad cymharol ar gyfer lleiafrifoedd crefyddol.

LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINEL

O gymharu â Christnogion, soniodd cyfran uwch o bobl heb grefydd eu bod wedi dioddef trosedd dreisgar yn 2012/13.



Yn Lloegr, mae’r gyfran o leiafrifoedd crefyddol a ddywedodd eu bod wedi dioddef trosedd dreisgar yn uwch (9.1%) nag i’r rhai heb grefydd.

Nid oedd gan Gymru ddigon o ddata i wneud dadansoddiad cymharol ar gyfer lleiafrifoedd crefyddol.

Adnabyddir Islamophobia fel her sy’n dod i’r amlwg

Mae adroddiad y Llywodraeth Glymblaid yn 2014 ar gyflwyno’r cynllun gweithredu yn erbyn troseddau casineb ‘Heriwch ef, Adroddwch amdano, Stopiwch ef’ yn nodi casineb gwrth-Fwslimaidd fel her sy’n dod i’r amlwg, yn ogystal ag eithafiaeth a throseddau casineb, troseddau casineb ar-lein a throseddau casineb anabledd.

Gwnaeth hefyd amlinellu dechreuad prosiectau’r Llywodraeth i fynd i’r afael â theimlad gwrth-Fwslimaidd, gan gynnwys lansio Tell MAMA, sef gwasanaeth trydydd person sy’n adrodd a chofnodi troseddau a digwyddiadau casineb gwrth-Fwslimaidd, a chefnogi dioddefwyr. Noda Tell MAMA, yn eu hadroddiad 2013/14, fod digwyddiadau ar-lein yn cynnwys y rhan fwyaf o achosion a adroddwyd iddynt, tra bod tua hanner y dioddefwyr ‘ar-lein’ yn adrodd wrth MAMA yn fenywod, ac yn aml yn gwisgo eitemau dillad sy’n gysylltiedig ag Islam. Mae cyndynrwydd rhag adrodd yn dal yn her wrth ddadansoddi data troseddau, yn enwedig troseddau casineb.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Mae Cristnogion a Mwslimiaid yn llai tebygol o fod â chymhwyster lefel gradd na Bwdhyddion, Sikhiaid, Iddewon, Hindŵiaid, neu bobl heb grefydd

Ym Mhrydain, roedd gan 31.2% o bobl heb grefydd gymhwyster lefel gradd yn 2013. Roedd gan ganran is o Gristnogion **(25.2%)** a Mwslimiaid **(28.0%)** gymhwyster lefel gradd. Fodd bynnag, roedd Bwdhyddion **(39.8%),** Hindŵiaid **(53.2%),** Iddewon **(54.0%)** a Sikhiaid **(32.4%)** yn fwy tebygol o gael cymhwyster lefel gradd, o gymharu â'r rhai heb grefydd yn 2013.

Roedd canran uwch o bobl ifanc heb grefydd heb fodmewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) **(10.5%)** o gymharu â Christnogion ifanc **(7.1%)** a phobl ifanc o leiafrifoedd crefyddol **(6.8%)** yn 2013.

Ym Mhrydain roedd pobl 25-64 blwydd oed a oedd yn Gristnogion **(9.8%),** Bwdhyddion **(14.0%),** Mwslimiaid **(22.2%)** a Sikhiaid **(14.9%)** yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymhwyster na'r rhai heb grefydd **(9.8%)** yn 2013. Roedd pobl Iddewig **(6.2%)** a Hindŵ **(7.9%),** mewn cyferbyniad, yn llai tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau, o gymharu â'r rhai heb grefydd.

Yn gyffredinol caiff pobl â chrefydd lai o dâl na'r rheini heb grefydd

Enillion cyfartalog i bobl o grefyddau / credoau penodol yn 2013 oedd: £10.70 i bobl heb grefydd: **£10.50** i Gristnogion; **£9.80** ar gyfer lleiafrifoedd crefyddol. Hindŵiaid **(£11.70)** ac Iddewon **(£16.20)** oedd y ddau grŵp crefyddol a dderbyniai enillion uwch na'r bobl heb grefydd yn 2013.



Canran y Cristnogion mewn cyflogaeth ar draws Prydain yn 2013 oedd:

Canran y bobl heb unrhyw grefydd mewn cyflogaeth yn 2013, oedd:



Canran y bobl o leiafrif crefyddol mewn cyflogaeth yn 2013, oedd:



Ym Mhrydain yn 2013, roedd gan Gristnogion gyfradd diweithdra is **(5.9%),** o gymharu â phobl heb grefydd **(7.9%).** Mewn pobl o leiafrifoedd crefyddol, roedd cyfradd diweithdra uwch **(11.6%).** Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn eang gan ddibynnu ar ba leiafrifoedd crefyddol sydd yn y cwestiwn. Tra mai pobl Iddewig oedd â'r gyfradd diweithdra isaf **(3.2%),** gan Fwslimiaid oedd y gyfradd diweithdra uchaf **(17.2%).**

Mae pobl heb grefydd yn llai tebygol o adrodd am iechyd corfforol neu feddyliol gwael, ond maent yn fwy tebygol o ysmygu neu yfed yn ormodol

Yn Lloegr, roedd llai o bobl heb grefydd wedi adrodd am iechyd gwael iawn **(4.6%),** o gymharu â Christnogion **(6.7%)** a lleiafrifoedd crefyddol **(8.5%)** yn 2012. Yn yr Alban yn ystod yr un cyfnod, roedd llai o bobl heb grefydd yn adrodd am iechyd gwael iawn **(6.6%)**, o gymharu â Christnogion **(9.8%).**

Nid oedd data ar gael ar gyfer Cymru.

Yn Lloegr, roedd llai o bobl heb grefydd wedi adrodd am iechyd meddyliol gwael **(14.2%),** o gymharu â Christnogion **(14.7%)** a lleiafrifoedd crefyddol **(20.0%)** yn 2012.

Nid oedd data ar gael ar gyfer Cymru.

Yn Lloegr, roedd pobl heb grefydd yn fwy tebygol o ysmygu **(22.1%)** o gymharu â Christnogion **(16.7%)** neu bobl o leiafrif crefyddol **(15.7%),** yn 2012. Yn yr Alban, roedd pobl heb grefydd yn fwy tebygol o ysmygu **(29.7%)** o gymharu â Christnogion (21.3%).

Nid oedd data ar gael ar gyfer Cymru.

Yn Lloegr, mae pobl heb grefydd yn fwy tebygol o yfed mwy na'r gyfran ddyddiol a argymhellir ar gyfer alcohol **(41.1%)**, o gymharu â Christnogion **(32.5%)** a lleiafrifoedd crefyddol **(9.2%)** yn 2012. Gwelwyd yr un duedd yn yr Alban lle'r oedd pobl heb unrhyw grefydd **(42.9%)** yn fwy tebygol o yfed mwy na'r gyfran ddyddiol a argymhellir o alcohol, o gymharu â Christnogion **(32.5%)** a lleiafrifoedd crefyddol **(9.2%)**. Nid oedd data ar gael ar gyfer Cymru.

Yn Lloegr, roedd canran uwch o Gristnogion wedi'u cofnodi fel rhy drwm neu'n ordew (66.6%), o gymharu â phobl heb grefydd **(55%).** Roedd canran y lleiafrifoedd crefyddol a gofnodwyd dros bwysau neu'n ordew yn **56.4%** yn 2012. Yn yr Alban, yn ystod yr un cyfnod, roedd mwy o Gristnogion wedi'u cofnodi eu bod dros bwysau neu'n ordew **(68.2%)**, o gymharu â phobl heb grefydd **(60.0%).** Canran y lleiafrifoedd crefyddol wedi'u cofnodi fel rhy drwm neu'n ordew oedd **46.7%**. Nid oedd data ar gael ar gyfer Cymru.

Mae Cristnogion yn fwy tebygol o bleidleisio ond mae pobl heb unrhyw grefydd yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol



Roedd Cristnogion (95.2%) yn fwy tebygol na phobl heb unrhyw grefydd (91.2%) o ddweud eu bod wedi pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol 2015. O gymharu â phobl heb grefydd, dywedodd canran is o bobl o leiafrifoedd crefyddol eu bod wedi pleidleisio **(88.4%).**

Yn Lloegr roedd canran uwch o'r rhai heb grefydd (34.0%) na'r rhai a oedd yn Gristnogion (29.6%) neu o leiafrif crefyddol (23.5%) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol, megis lobïo a / neu brotestio, yn 2013/14 .